Nursing & Midwifery Council

# Ymgynghoriad ar ffioedd cofrestru

Mai 2014

Cynnwys:

Cynnwys: ..... 2

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ..... 3

Crynodeb gweithredol ..... 3

Ein sefyllfa ariannol ..... 5

Cefndir ..... 5

Ymgynghoriad blaenorol ar gynnydd yn y ffi ..... 5

Y ffigurau cyhoeddedig diweddaraf ..... 6

Beth rydym wedi ei gyflawni gyda'n harian? ..... 7

Bwlch ariannu ..... 8

Cyflawni gwerth am arian ..... 9

Yr heriau a wynebwn ..... 9

Cynyddu gweithgareddau addasrwydd i ymarfer ..... 9

Ymrwymiadau rheoleiddio a phrif ffrydiau gwaith ..... 12

Ail-ddilysu a'r Cod ..... 13

Codi ein proffil cyhoeddus ..... 13

Newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE ..... 13

Adolygiad o brosesau goruchwylio bydwragedd statudol ..... 13

Gwelliannau o ran cofrestru ..... 13

Buddsoddi mewn TG a systemau ..... 13

Rhaglen newid Addasrwydd i Ymarfer ..... 14

Talu ffioedd drwy randaliadau ..... 14

Cronfeydd wrth gefn a'r strategaeth ariannol ..... 14

Sut rydym yn cymharu â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol eraill ..... 15

Dadansoddiad o lefelau ffioedd posibl ..... 17

Cadw'r ffi gofrestru bresennol sef £100 – yr effaith ar brosesau diogelu'r cyhoedd ..... 17

Cynnig i gynyddu'r ffi gofrestru i £120 ..... 18

Hawlio rhyddhad treth ar ffi gofrestru'r NMC ..... 18

Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o brosesau rheoleiddio gofal iechyd statudol ..... 18

Y camau nesaf ..... 20

Cwestiynau'r Ymgynghoriad ..... 21

## Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU. Rydym yn bodoli er mwyn diogelu iechyd a lles y cyhoedd.

2 Nodir ein rôl, ein swyddogaethau a'n pwerau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn')[1].

2.1 Nodwn y safonau ymddygiad, cymhwysedd ac addysg y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cyrraedd, a sicrhawn ansawdd y safonau hynny a'r sawl sy'n eu cyrraedd.

2.2 Rydym yn cynnal cofrestr gyhoeddus o weithwyr proffesiynol sy'n cyrraedd y safonau hynny ac sydd â'r hawl felly i ymarfer yn y DU. Mae'n anghyfreithlon i nyrsys a bydwragedd nad ydynt wedi cofrestru â ni i ymarfer yn y DU.

2.3 Rydym yn ymchwilio i achosion lle nad yw nyrs neu fydwraig yn cyrraedd ein safonau oherwydd camymddygiad, iechyd neu ddiffyg cymhwysedd, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r achosion hynny. Er mwyn diogelu'r cyhoedd, mae gennym ddyletswydd i ymchwilio i unrhyw honiad a gawn nad yw nyrs neu fydwraig yn addas i ymarfer.

## Crynodeb gweithredol

3 Mae nyrsys a bydwragedd yn talu ffi gofrestru flynyddol i ni, sef £100 ar hyn o bryd. Drwy gofrestru, gallant ymarfer fel nyrsys a bydwragedd cofrestredig yn y DU. Mae cofrestriad hefyd yn rhoi sicrwydd iddynt hwy a'r cyhoedd bod nyrsys a bydwragedd eraill wedi cyrraedd yr un safonau uchel o ran addysg a'u bod yn ddarostyngedig i'r un cod ymddygiad.

4 Yn unol â thelerau ein Gorchymyn[2], rhaid i ni ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'n ffioedd.

5 Yn unol â'n Gorchymyn, cawn ein hariannu gan y ffi gofrestru. Felly, mae'n rhaid i'r ffi gwmpasu cost rheoleiddio er mwyn ein galluogi i gyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd.

6 Cost rheoleiddio ar hyn o bryd yw £120 y flwyddyn i bob aelod cofrestredig. Felly, rydym yn ymgynghori ar gynnydd yn y ffi gofrestru flynyddol o £100 i £120[3].

7 Gwnaethom nodi ym mis Mai 2012 mai'r swm sydd ei angen i gwmpasu cost rheoleiddio yw £120 fesul aelod cofrestredig y flwyddyn, a gwnaethom ymgynghori ar hyn ar y pryd[4]. Fodd bynnag, am ddwy flynedd rydym wedi cael cymhorthdal

[1] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2002/253/contents/made
[2] Erthygl 7(3) o'r Gorchymyn
[3] Mae hyn yn golygu cynnydd yn y ffi gofrestru gychwynnol, y ffi gadw, y ffi adnewyddu a'r ffi aildderbyn i £120, y mae pob un ohonynt ar hyn o bryd yn £100.
[4] Ceir gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar ffioedd yn 2012 yma: http://www.nmc-uk.org/Get-involved/Consultations/Past-consultations/By-year/NMC-fee-increase/

byrdymor tuag at ein costau drwy grant gan lywodraeth y DU. Mae hyn wedi ein galluogi i godi ffi gofrestru is o £100 yn hytrach na £120 tan fis Mawrth 2015. Mae'n ofynnol i ni bellach gwmpasu cost wirioneddol rheoleiddio ein hunain.

8 Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi gweithio'n galed i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd, gan ganolbwyntio ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Rydym wedi gwneud £25 miliwn o arbedion effeithlonrwydd ers 2012-13 er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl o ffioedd aelodau cofrestredig. Rydym wedi clirio ein baich achosion hanesyddol [5] ac wedi gwella ein prosesau ymchwilio a gwrando er mwyn mynd i'r afael ag achosion yn gynt, a'r cyfan oll er gwaethaf deddfwriaeth sy'n cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei wneud yn y maes hwn. Mae'r ffordd rydym yn sicrhau ansawdd addysg bellach yn gymesur ac yn seiliedig ar risg. Rydym wedi diweddaru ein prosesau cofrestru ac rydym yn gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid. Rydym wedi rheoli cyflogau staff.

9 Rydym yn parhau i wneud pob ymdrech i reoli ein costau a thrwy hynny lefel ein ffi. Er gwaethaf yr heriau cynyddol a wynebwn (isod), ein nod yw arbed tua £18 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17. Byddwn yn gwneud yr arbedion hyn yn bennaf drwy newid y ffordd rydym yn cynnal ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer, cyn belled ag y bydd deddfwriaeth yn ein galluogi i wneud hynny.

10 Fodd bynnag, mae maint a chymhlethdod atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer wedi parhau i gynyddu, sef y prif ffactorau sy'n rheoli ein costau. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf ein gwelliannau a'n harbedion, a heb unrhyw debygolrwydd uniongyrchol o newid mewn deddfwriaeth, bod cost rheoleiddio yn parhau yn £120 fesul aelod cofrestredig y flwyddyn. Heb y gwelliannau a'r arbedion hyn, byddai'r gost yn agosach at £150 y flwyddyn fesul aelod cofrestredig y flwyddyn.

11 Gwerthfawrogwn yn llwyr yr amodau economaidd anodd a wynebir gan nyrsys a bydwragedd ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau cyflog a phensiwn. Rydym yn ymwybodol iawn yn yr amgylchedd heriol hwn y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn amhoblogaidd ymhlith nyrsys a bydwragedd. Fodd bynnag, ein barn dros dro yw mai cynyddu'r ffi er mwyn adlewyrchu ein costau rheoleiddio yw'r ffordd orau o'n galluogi i gyflawni ein dyletswyddau'n briodol a diogelu'r cyhoedd.

12 Oni fyddwn yn cynnal lefel bresennol y cyllid sydd gennym (a ddarperir drwy'r ffi bresennol o £100 yn ogystal â grant llywodraeth y DU), ni fyddem yn gallu cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio na chyflawni ein hymrwymiadau. Byddai'n rhaid i ni gynnal llai o weithgareddau addasrwydd i ymarfer. Byddai'n rhaid i ni leihau nifer yr ymchwiliadau achos a gwrandawiadau a gynhelir gennym. Byddai hyn yn arwain at ôl-groniad o achosion a byddai nifer yr achosion sy'n aros i gael eu clywed yn parhau i gynyddu. Byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd. Nid yw hyn yn dderbyniol yn ein barn ni.

13 Gall nyrsys a bydwragedd leihau effaith y ffi gofrestru drwy hawlio rhyddhad treth ar eu ffi gofrestru.

---

[5] Atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a gafwyd cyn mis Ionawr 2011, pan gyflwynwyd ein proses sgrinio newydd.

14 Sicrhawyd y tybiaethau a'r rhagolygon ariannol sy'n sail i'r ffi gan archwilwyr allanol annibynnol[6].

15 Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i bob rhanddeiliad, ac rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ac awgrymiadau. Bydd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 8 Mai 2014 a 31 Gorffennaf 2014.

# Ein sefyllfa ariannol

## Cefndir

16 Mae'r ffi gofrestru, a delir gan bob nyrs a bydwraig, yn ariannu ein holl weithgareddau rheoleiddio gan gynnwys cofrestru, addasrwydd i ymarfer, addysg a datblygu safonau, yn ogystal â'n gweithgareddau ymgysylltu. Mae'n cwmpasu'r ymrwymiadau a wnaed gennym i lywodraeth y DU a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Iechyd, yn ogystal â'r rheini a wnaed gennym mewn ymateb i adroddiad Francis[7] a datblygiadau diweddar eraill ym maes rheoleiddio.

## Ymgynghoriad blaenorol ar gynnydd yn y ffi

17 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym ni, a rheoleiddwyr gofal iechyd eraill y DU, wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein baich achosion addasrwydd i ymarfer oherwydd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a'u cymhlethdod.

18 Cynyddodd ein costau yn sylweddol o ganlyniad i hynny, a rhagwelwyd y byddai ein costau'n parhau i gynyddu yn 2012-2013 a thu hwnt. Nid oedd cynnal y lefel hon o weithgarwch gyda'n hincwm blaenorol yn seiliedig ar ffi o £76 yn gynaliadwy. Felly, ym mis Mehefin 2012, ymgynghorwyd ar gynnig i gynyddu'r ffi o £76 i £120[8] er mwyn adlewyrchu ein costau rheoleiddio. Dangosodd ein gwaith dadansoddi fod y gost o gyflawni ein swyddogaethau statudol a'n hymrwymiadau wedi cynyddu i £120 fesul aelod cofrestredig y flwyddyn.

19 Cyn 2012, roeddem wedi cynnal ffi o £76 am bum mlynedd, ac wedi amsugno'r costau a ddeilliai o chwyddiant cynyddol a nifer gynyddol o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer, er enghraifft, cymaint â phosibl.

20 Yn dilyn yr ymgynghoriad yn 2012, cawsom grant o £20 miliwn gan lywodraeth y DU sydd wedi ein galluogi i gyfyngu'r ffi i £100 am ddwy flynedd, hyd at fis Mawrth 2015.


21 Dyfarnwyd y grant o £20 miliwn i'n helpu i gyflawni ein targed ar gyfer dyfarnu addasrwydd i ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, clirio ein hôl-groniad hanesyddol o achosion addasrwydd i ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, a chyflawni ein lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg o £10 miliwn erbyn mis Ionawr 2016.

[6] Mae ein model ariannol hefyd wedi'i archwilio'n allanol.
[7] http://www.nmc-uk.org/About-us/Our-response-to-the-Francis-Inquiry-Report/
[8] http://www.nmc-uk.org/Get-involved/Consultations/Past-consultations/By-year/NMC-fee-increase/

## Y ffigurau cyhoeddedig diweddaraf


22 Ein costau blynyddol yn 2012–2013 oedd £63.266 miliwn. Dengys Ffigur 1 gost pob un o'n swyddogaethau, a dengys fod dros dri chwarter ein costau yn mynd tuag at brosesau addasrwydd i ymarfer.

**Ffigur 1: Cost yn ôl swyddogaeth reoleiddio 2012–2013**




Costau addasrwydd i ymarfer (£48.66m)
Cynnal y gofrestr (£5.56m)
Hyrwyddo safonau a datblygu polisi (£2.15m)
Addysg (£1.4m)
Llywodraethu (3,59m)
Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd (£1.91m)

**Ffigur 2: Costau yn ôl math 2012–2013**




Costau staff 37%
Ffioedd proffesiynol a chyfreithiol 25%
Costau panelwyr 15%
Costau tystion a chostau eraill gwrandawiadau 3%
Costau aelodau 0%
Costau llety 6%
Dibrisiant 4%
Costau digwyddiadau a chyfathrebu 2%
Costau gweinyddol a swyddfa 1%
Argraffu a phostio 2%
Costau Sicrhau Ansawdd Addysg 1%
Costau system 4%

23 Dengys Ffigur 2 ble y caiff ein harian ei wario, yn ôl y math o gost. Y categori gwariant mwyaf yw staffio, sy'n cyfrif am 37 y cant o'n costau. Cyflogir y rhan fwyaf o'n staff (64 y cant) yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer. Mae costau proffesiynol a chyfreithiol yn ymwneud yn bennaf â gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer. Mae ein costau llety yn ymwneud yn bennaf â safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a staff. Ceir rhagor o wybodaeth am ein costau yn y ddogfen ategol ar ein gwefan[9].

## Beth rydym wedi ei gyflawni gyda'n harian?

24 Yn ein hymgynghoriad yn 2012 ar gynnig i gynyddu'r ffi, gofynnwyd am ragor o arian i fynd i'r afael â maint a chymhlethdod cynyddol ein baich achosion

[9] http://www.nmc-uk.org/Documents/The-NMC-Fee/The-NMC-fee.pdf

addasrwydd i ymarfer, ac adlewyrchu cost rheoleiddio. Fodd bynnag, roeddem am sicrhau, er ein bod yn gwneud cais am arian ychwanegol, ein bod yn ceisio gwneud defnydd mor effeithlon â phosibl o arian aelodau cofrestredig ar draws ein sefydliad. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Er enghraifft, o ran ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer:

24.1 rydym wedi cynyddu nifer y gwrandawiadau dyddiol o bwys a gynhelir gennym i 22 ers mis Mehefin 2013, ac rydym yn cynnal hyd at 30 o ddigwyddiadau addasrwydd i ymarfer[10] bob dydd;

24.2 roeddem wedi clirio ein baich achosion addasrwydd i ymarfer hanesyddol i raddau helaeth erbyn mis Medi 2013, flwyddyn yn gynt na'r hyn yr ymrwymwyd iddo;

24.3 ers mis Tachwedd 2011, rydym wedi haneru amseroedd ymchwilio cyfartalog; ac

24.4 rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed ar gyfer dyfarnu achosion o fewn chwe mis erbyn mis Rhagfyr 2014.

25 Rydym wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni ein targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn.

## Bwlch ariannu

26 Disgwylir i'n costau amrywio o £73 miliwn i £82 miliwn y flwyddyn rhwng 2013–2014 a 2016–2017[11]. Cawn incwm o £67 miliwn y flwyddyn o ffioedd cofrestru yn unig (heb gynnwys grant llywodraeth y DU) ar sail y ffi flynyddol bresennol o £100. Felly, mae gennym fwlch ariannu a fydd yn rhoi ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd yn y fantol.

27 Ym mis Mawrth 2014, cymeradwyodd ein Cyngor y cynllun corfforaethol ac ariannol tair blynedd ar gyfer 2014–2017 a'r gyllideb ar gyfer 2014–2015. Mae'r cynllun corfforaethol yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ein diben rheoleiddio craidd ac yn rhoi diogelu'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'r cynllun ariannol yn dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein cynllun corfforaethol.

28 Er mwyn cyflawni ein cynllun corfforaethol a'n swyddogaethau rheoleiddio craidd, cytunodd y Cyngor, o'i anfodd, i ymgynghori ar gynnig i gynyddu'r ffi i £120.

29 Mae ein hamcanestyniadau o reidrwydd yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch lefelau gweithgarwch, dangosyddion economaidd a gofynion deddfwriaethol. Os bydd ein hamcanestyniadau cyfredol yn gywir, nid ydym yn rhagweld y bydd

---

[10] Er enghraifft: cyfarfodydd gorchymyn interim, gwrandawiadau ac adolygiadau; cyfarfodydd y pwyllgor ymarfer; a materion rhagarweiniol ar gyfer gwrandawiadau.

[11] Ceir rhagor o wybodaeth am ein tybiaethau a'n hamcanestyniadau o ran costau yn ogystal â risgiau ariannol a chyfleoedd yn eitem 11 o bapurau cyfarfod y Cyngor ar 26 Mawrth 2014, '*2014–17 Corporate plan and budget, including review of reserves policy and registration fee proposals*'. Mae'r ddogfen hon ar gael yn: http://www.nmc-uk.org/Documents/CouncilPapersAndDocuments/Council%202014/Council%20papers%20-%20OPEN%2026%20March%202014%20FINAL.pdf.

angen i ni gynyddu ein ffi yn y byrdymor i'r tymor canolig, y tu hwnt i'r cynnig arfaethedig o £120, er na allwn addo hynny.

### Cyflawni gwerth am arian

30 Rhan allweddol o'n strategaeth ariannol yw sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau bob amser er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl am ffioedd aelodau cofrestredig. Rydym wedi sefydlu grŵp llywio effeithlonrwydd corfforaethol er mwyn goruchwylio hyn ac rydym wedi datblygu fframwaith gwerth am arian er mwyn bwrw ymlaen â'n rhaglen effeithlonrwydd.

31 Yn ein hymgynghoriad blaenorol ar gynnig i gynyddu'r ffi, gwnaethom ymrwymo i sicrhau £25 miliwn o arbedion effeithlonrwydd yn ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2012–2013 a 2014–2015 (gan gyflawni £13.4 miliwn o'r arbedion hynny yn 2014–15). Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni'r arbedion hyn. At hynny, rydym wedi nodi arbedion effeithlonrwydd pellach o £4.7 miliwn yn 2014–2015.

32 Anelwn at sicrhau tua £18 miliwn o arbedion effeithlonrwydd y flwyddyn rhwng 2014–2015 a 2016–2017. Mae ein harbedion effeithlonrwydd yn cynnwys:

32.1 cynnal cyfran o'n hymchwiliadau i achosion yn fewnol;

32.2 symleiddio prosesau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r broses gorchymyn interim;

32.3 dulliau amgen o ddatrys achosion gan gynnwys tynnu enwau oddi ar y gofrestr yn wirfoddol, cynnal cyfarfodydd yn hytrach na gwrandawiadau llawn, a phenderfyniadau panel drwy gytundeb, mewn achosion lle mae dulliau amgen o'r fath yn briodol;

32.4 newid y defnydd o ysgrifenwyr llaw fer;

32.5 cyflwyno Archwilwyr Achosion i'r cam ymchwilio a fydd yn lleihau nifer y cyfarfodydd a gynhelir gan y Pwyllgor Ymchwilio a'u hyd; a

32.6 gwneud defnydd gwell o dechnoleg fel cynyddu swyddogaethau cofrestru ar-lein ac e-recriwtio.

33 Heb yr arbedion effeithlonrwydd a wnaed gennym a'r rhai rydym yn bwriadu eu gwneud, byddai'r ffi ofynnol yn agosach at £150 fesul aelod cofrestredig. Fodd bynnag, mae ein harbedion wedi cyfyngu'r ffi ofynnol i £120.

## Yr heriau a wynebwn

### Cynyddu gweithgareddau addasrwydd i ymarfer

34 Ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer yw ein prif gost o hyd. Pennir y gweithgareddau hyn gan y fframwaith deddfwriaethol cymhleth y mae'n rhaid i ni weithredu'n unol ag ef. Mae'r fframwaith hwn yn nodi'n fanwl y dulliau a nifer o'r prosesau y mae'n rhaid i ni eu dilyn, yn ogystal â'r strwythurau sefydliadol sydd eu hangen i wneud hyn.

35 Mae ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd yn cyfrif am 77 y cant o'n costau. Nid oes gennym fawr ddim rheolaeth dros nifer yr atgyfeiriadau a gawn. Mae ein fframwaith deddfwriaethol presennol yn golygu po fwyaf o atgyfeiriadau a gawn, y mwyaf yw'r gost i ni. Ar wahân i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, ni sy'n cael y nifer fwyaf o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer o blith rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol y DU[12]. Yn 2012–2013, cawsom 4,106 o atgyfeiriadau[13]. Yn yr un flwyddyn, ystyriodd ein Pwyllgor Ymchwilio 3,552 o achosion[14] a chynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd 1,377 o wrandawiadau llawn[15]. Mae pob gwrandawiad llawn yn para tri diwrnod a hanner ar gyfartaledd ac yn costio £13,000[16]. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal 30 o ddigwyddiadau bob dydd, y mae 22 ohonynt yn wrandawiadau llawn[17]. Oherwydd nifer a chymhlethdod cynyddol yr atgyfeiriadau a gawn, ynghyd â'n deddfwriaeth gyfyngol, rydym ar hyn o bryd yn cynnal mwy o wrandawiadau llawn na'r holl reoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn y DU gyda'i gilydd.

36 Mae'r duedd o ran nifer yr atgyfeiriadau yn dangos cynnydd parhaus. Mae nifer yr atgyfeiriadau a gawn wedi dyblu ers 2008-2009, gan olygu bod cost ymdrin â'r achosion hyn hefyd wedi cynyddu'n sylweddol. At hynny, mae'r achosion wedi mynd yn fwy cymhleth, gan arwain at wrandawiadau hirach ac felly gostau uwch. Yn 2009-2010, gwnaethom wario £17.8 miliwn ar weithgareddau addasrwydd i ymarfer, a gododd i £48.6 miliwn yn 2012-2013. Ariannwyd y cynnydd hwn mewn gweithgareddau i ddechrau drwy ein cronfeydd wrth gefn, a leihaodd yn sylweddol yn sgil hynny. Erbyn 2012, nid oedd hyn yn gynaliadwy mwyach, sef y rheswm pam y bu'n rhaid i ni ymgynghori ar gynnig i gynyddu'r ffi.

37 Dengys Ffigur 3 y cynnydd blynyddol blaenorol mewn atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer, ynghyd â chynnydd amcanestynedig o 10 y cant yn nifer yr atgyfeiriadau o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2014 a 2017.

---

[12] Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn asesu atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer mewn ffordd ychydig yn wahanol i ni drwy gynnal asesiad brysbennu o ymholiadau am feddygon. Ym mlwyddyn galendr 2012, o blith y 10,347 o ymholiadau am feddygon a gafwyd, daeth 2,708 ohonynt yn ymchwiliadau ffrwd 1 newydd y gallai meddyg fod yn anaddas i ymarfer. Mae hyn yn cymharu â 4,106 o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer newydd a gawsom yn 2012-2013 lle y cychwynnwyd ymchwiliadau i achosion: tudalen 4 - http://www.gmc-uk.org/06___Fitness_to_Practise_Annual_Statistics_Report_2012.pdf_53446275.pdf

[13] http://www.nmc-uk.org/Documents/Annual_reports_and_accounts/Annual%20Fitness%20to%20Practise%20Report%202012%20-%202013.PDF


[14] http://www.nmc-uk.org/Documents/Annual_reports_and_accounts/Annual%20Fitness%20to%20Practise%20Report%202012%20-%202013.PDF

[15] http://www.nmc-uk.org/Documents/Annual_reports_and_accounts/Annual%20Fitness%20to%20Practise%20Report%202012%20-%202013.PDF

[16] Costau proffesiynol, costau panelwyr, a chostau tystion ac ymatebwyr yw'r rhain yn bennaf.

[17] Gwrandawiadau gorchymyn interim, adolygiadau gorchymyn interim a chyfarfodydd cychwynnol yw'r gweddill.

**Ffigur 3: Nifer yr atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a gawn**[18]





**Atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer**

38 Ers 2008-2009, mae nifer yr atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer wedi cynyddu dros 133 y cant. Mae hyn yn un o'r prif ffactorau sy'n rheoli ein costau. Pe bai'r ffi yn codi i £120, byddai hyn yn gynnydd o 58 y cant o gymharu â 2008-2009, sef £76. Rydym wedi gwneud ein gorau i amsugno costau'r cynnydd mewn atgyfeiriadau drwy wella effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o arian arnom i ddelio â nifer gynyddol yr atgyfeiriadau.

39 Mae cost gynyddol ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer wedi golygu ein bod wedi gorfod lleihau costau cymharol mewn meysydd rheoleiddio eraill. Dengys Ffigur 4 effaith hyn dros nifer o flynyddoedd. Mae gweithgareddau addasrwydd i ymarfer bellach yn cyfrif am 77 y cant o'n costau o gymharu â 50 y cant yn 2008-2009, tra bod yr adnoddau a ddyrennir i swyddogaethau eraill (fel canran ac mewn termau real) wedi lleihau. Fodd bynnag, mae ein swyddogaethau cofrestru, safonau ac addysg hefyd yn bwysig ac mae angen buddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau lefel briodol o reoleiddio ar draws ein swyddogaethau. Mae angen i ni felly adolygu cydbwysedd yr arian a ddyrennir.

[18] http://www.nmc-uk.org/About-us/Statistics/Statistics-about-fitness-to-practise-hearings/

**Ffigur 4: Cost fesul swyddogaeth**




**Canran y Gwariant**

**Blwyddyn**

Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd
Llywodraethu
Addysg
Hyrwyddo safonau a datblygu polisi
Cynnal y gofrestr
Addasrwydd i Ymarfer

## Ymrwymiadau rheoleiddio a phrif ffrydiau gwaith

40 Mae'r ffordd y caiff gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu rheoleiddio yn newid yn sylweddol. Mae adroddiadau ar fethiannau mawr mewn gofal, fel adroddiad Francis, wedi golygu ei bod yn ofynnol i reoleiddwyr fod yn fwy rhagweithiol, canolbwyntio'n fwy ar ddiogelwch cleifion, a cheisio codi eu proffil cyhoeddus. Rydym wedi ymrwymo i nifer o fentrau a ffrydiau gwaith allweddol er mwyn bodloni gofynion yr adroddiadau hyn a diogelu'r cyhoedd yn effeithiol.

41 Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd yn ofynnol i ni wneud nifer o newidiadau yn unol â deddfwriaeth y DU a'r UE. O ganlyniad, bydd angen i ni ddatblygu ein prosesau gweinyddol a TG.

42 Bydd ein ffrydiau gwaith yn parhau i ystyried gofynion ac argymhellion a bennwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Iechyd.

43 Ceir rhagor o fanylion am ein hymrwymiadau rheoleiddio a'n prif ffrydiau gwaith isod. Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn rhan o'n cynllun ariannol.

## Ail-ddilysu a'r Cod

44 Rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r model ail-ddilysu erbyn mis Rhagfyr 2015. Fel rhan o'r broses o bennu'r safonau ar gyfer ail-ddilysu, rydym yn adolygu'r Cod yn ogystal â'n [19] safonau allweddol ar gyfer nyrsys a bydwragedd. Rydym wrthi'n ymgynghori ac yn cydweithio'n helaeth â'r proffesiynau, cleifion a'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod ein model yn addas at y diben.

## Codi ein proffil cyhoeddus

45 Rydym yn ymrwymedig i godi ein proffil cyhoeddus. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys lansio gwefan newydd, ymgysylltu ar draws pedair gwlad y DU, cydweithio â rheoleiddwyr eraill er mwyn diogelu'r cyhoedd a chydweithio'n agos â grwpiau cleifion ac aelodau cofrestredig.

## Newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE

46 Bydd newidiadau i Gyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol Cydfuddiannol yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud nifer o ddiwygiadau i'n prosesau. Er enghraifft, mae gofynion newydd o ran rheolaethau Saesneg, safonau addysg gofynnol, a system rybuddio ar gyfer Ewrop gyfan ar gyfer sancsiynau addasrwydd i ymarfer yn debygol o olygu bod angen buddsoddi'n sylweddol er mwyn newid ein prosesau a'n system TG. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud y newidiadau hyn.

## Adolygiad o brosesau goruchwylio bydwragedd statudol

47 Yn dilyn adroddiad gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ym mis Rhagfyr 2013, gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol gan Gronfa'r Brenin o brosesau rheoleiddio bydwragedd, i'w gwblhau erbyn diwedd 2014.

## Gwelliannau o ran cofrestru

48 Rydym yn gwella ein gwasanaethau cofrestru er mwyn darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid a phroses fwy effeithlon. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth cofrestru ar-lein y gall nyrsys a bydwragedd ei ddefnyddio i wneud cais am gofrestriad, diweddaru eu manylion, adnewyddu eu cofrestriad a thalu eu ffi flynyddol. Nid yn unig y bydd hyn yn gwella'r profiad i nyrsys a bydwragedd, ond bydd hefyd yn sicrhau arbedion ar gyfer y dyfodol.

## Buddsoddi mewn TG

49 Rydym wedi cytuno ar strategaeth gadarn i foderneiddio ein seilwaith a'n systemau TG. Mae hyn yn cynnwys uwchraddio ein systemau cofrestru a rheoli achosion er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel, a'u bod yn gallu darparu'r lefel gywir o wybodaeth reoli i lywio ein penderfyniadau.

---

[19] Y Cod: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd - http://www.nmc-uk.org/Publications/Standards/The-code/Introduction/

**Rhaglen newid Addasrwydd i Ymarfer**

50 Rydym wrthi'n newid ein prosesau addasrwydd i ymarfer er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon. Er enghraifft, rydym yn ymgynghori ar gynnig i gyflwyno Archwilwyr Achosion i'r cam ymchwilio i achosion. Bydd hyn yn lleihau nifer y cyfarfodydd a gynhelir gan y Pwyllgor Ymchwilio a'u cost tra'n sicrhau bod penderfyniadau cyson ac o safon yn cael eu gwneud ynghylch pa un a oes achos i'w ateb. Rydym hefyd yn gweithio i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid, cyflwyno model ymchwilio newydd a datblygu swyddogaeth gydweithio ranbarthol. Ein nod yw gwneud hyn tra'n rheoli lefel heriol o weithgareddau o ddydd i ddydd.

## Talu ffioedd drwy randaliadau

51 Gwerthfawrogwn yn llawn y byddai cynnig yr opsiwn i dalu'r ffi gofrestru drwy randaliadau yn hytrach na swm blynyddol o gymorth i nyrsys a bydwragedd.

52 Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno taliadau graddol erbyn diwedd 2016.

53 Yn ogystal â gwneud y newidiadau angenrheidiol i'n systemau a'n prosesau TG, byddwn yn ceisio gwneud newidiadau i'n deddfwriaeth, fel bod pawb sydd am wneud taliadau graddol yn gallu gwneud hynny. Mae ein deddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys a bydwragedd dalu eu ffi gofrestru yn llawn cyn y dyddiad adnewyddu blynyddol. Oni fyddant yn gwneud hynny, caiff eu cofrestriad ei ddiddymu'n awtomatig o dan y gyfraith ac ni fyddant yn gallu gweithio.

# Cronfeydd wrth gefn a'r strategaeth ariannol

54 Mae pob sefydliad yn anelu at gynnal rhyw lefel o gronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau y gallant barhau i weithredu mewn amgylchiadau anodd. Fel elusen, mae'n ofynnol i ni gynnal lefel ddigonol o gronfeydd wrth gefn yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennol[20].

55 Ein polisi o ran cronfeydd wrth gefn tan fis Medi 2012 oedd cadw gwerth tri mis o gostau gweithredol wrth gefn, yn ogystal â swm i dalu ein cyfran o'r diffyg pensiwn. Yn 2011-2012, gwnaethom ariannu ein gweithgarwch addasrwydd i ymarfer cynyddol drwy ein cronfeydd wrth gefn, gan beri iddynt leihau'n sylweddol.

56 Ym mis Medi 2012, gwnaethom fabwysiadu dull gweithredu yn seiliedig ar risg mewn perthynas â'n cronfeydd wrth gefn, gan gynnal lefel yn seiliedig ar y gwerthusiad ariannol o'n risgiau, yn ogystal â swm i dalu ein cyfran o'r diffyg pensiwn. Arweiniodd y newid hwn mewn polisi at ostyngiad sylweddol yn lefel y cronfeydd wrth gefn y mae'n ofynnol i ni eu cynnal.

57 Caiff yr elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd rhydd wrth gefn sydd ar gael', sef ein prif ddangosydd ariannol) ei hadolygu bob blwyddyn. Cytunodd ein Cyngor ym mis Mawrth 2014 y dylid cynnal y lefel rhwng £10 miliwn a £25 miliwn.

---

[20] http://www.comisiwnelusennau.gov.uk/detailed-guidance/money-and-accounts/charities-and-reserves-cc19/

58 Rydym yn gweithio i ailgyflenwi ein cronfeydd rhydd wrth gefn sydd ar gael i £10 miliwn o leiaf erbyn mis Ionawr 2016. Roedd hwn yn un o amodau grant £20 miliwn llywodraeth y DU yn 2012. Ar 31 Mawrth 2014, amcangyfrifwyd bod £7.6 miliwn o gronfeydd rhydd wrth gefn ar gael.


59 Yn ôl canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gellir lleihau cronfeydd rhydd wrth gefn yn y byrdymor o'r lefel sy'n ofynnol o dan y polisi, ond dim ond mewn amgylchiadau lle ceir cynllun clir a chadarn i'w hadfer i'r lefel ofynnol. Mae ein gwaith cynllunio ariannol yn seiliedig ar ffi o £120 o fis Mawrth 2015. Gyda'r lefel hon o arian, a'n costau rhagamcanol, byddem yn disgwyl i ni allu cyflawni ein targed o ran lefel ofynnol y cronfeydd wrth gefn.

60 Mae angen y lefel hon o arian arnom er mwyn cynnal ein cynaliadwyedd ariannol a diogelu'r cyhoedd drwy ein gweithgareddau a'n hymrwymiadau rheoleiddio.

## Sut rydym yn cymharu â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol eraill

61 Fel proffesiynau gofal iechyd eraill, mae nyrsio a bydwreigiaeth yn broffesiynau a reoleiddir sy'n golygu bod angen i aelodau cofrestredig dalu ffi i'w rheoleiddiwr. Mae ein ffi gofrestru arfaethedig o £120 yn cymharu'n ffafriol â ffioedd a godir gan reoleiddwyr a chyrff proffesiynol eraill, fel y gwelir yn Ffigur 5.

**Ffigur 5: Ffioedd rheoleiddwyr proffesiynau gofal iechyd a chyrff proffesiynol**[21]




**Ffi gofrestru**
**Ffi gadw**

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (deintyddion)
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Cyngor Fferyllol Gogledd Iwerddon
Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Y Cyngor Optegol Cyffredinol
Ffi flynyddol Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Ffi flynyddol y Coleg Nyrsio Brenhinol
Ffi flynyddol Unsain (unigolion sy'n ennill £20-25k y flwyddyn)
Ffi flynyddol PCS (unigolion sy'n ennill dros £26k y flwyddyn)
Ffi flynyddol Unite (uwch)
Ffi flynyddol Unite (sylfaenol)
Ffi flynyddol PCS (unigolion sy'n ennill £20-25k y flwyddyn)
Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (nyrsys deintyddol)

[21] http://www.gcc-uk.org/registration/fees/ ; http://www.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/Fees/Pages/Registration-fee.aspx ; http://www.gmc-uk.org/doctors/fees.asp ; http://www.psni.org.uk/wp-content/uploads/2012/10/Fees-are-applicable-for-2013-2013141.pdf ; http://www.osteopathy.org.uk/practice/How-to-register-with-the-GOsC/Qualified-in-the-UK/ ; http://www.optical.org/en/Registration/registration-fees.cfm ; http://www.rcm.org.uk/college/membership/categories/full/ ; http://www.pharmacyregulation.org/registration/registering-pharmacist/fees ; https://www.rcn.org.uk/membership/categories/categories ; https://www.unison.org.uk/for-members/joining-unison/how-much-does-it-cost/ ; https://www.join.pcs.org.uk/en/join-pcs/switch-to-direct-debit/index.cfm ; http://www.unitetheunion.org/growing-our-union/joinunite/contributionrates/ ; http://www.hpc-uk.org/registrants/fees/paying/. Y ffi gadw a ddangosir yw'r hyn y mae'r rheoleiddiwr / sefydliad yn ei godi bob blwyddyn er mwyn parhau'n gofrestredig (neu'n aelod) ar ôl y ffi gychwynnol am y flwyddyn. Taliadau blynyddol yw'r ffioedd cofrestru a chadw a ddangosir.

**NMC – ffi arfaethedig**
**NMC – ffi bresennol**
Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal

## Dadansoddiad o lefelau ffioedd posibl

62 Rydym wedi ystyried nifer o ffyrdd posibl o barhau i ddiogelu'r cyhoedd a chyflawni ein hymrwymiadau. Nodir dwy ffordd bosibl isod.

62.1 Cadw'r ffi gofrestru bresennol, sef £100.

62.2 Codi'r ffi i £120, er mwyn adlewyrchu cost wirioneddol rheoleiddio.

63 Gwnaethom hefyd ystyried ffyrdd posibl eraill, ond teimlwyd eu bod yn annhebygol o ddigwydd. Er enghraifft, gwnaethom ystyried y tebygolrwydd o gael grant arall gan y llywodraeth. Mae'r llywodraeth wedi dweud yn gyson mai rheoleiddiwr annibynnol ydym ac mai cyfrifoldeb y rheoleiddiwr yw penderfynu ar ffi gofrestru briodol[22]. Mae pob aelod cofrestredig eisoes yn costio £120 y flwyddyn i ni, a hynny ers cryn amser, a dylai hyn gael ei ariannu gan y sawl a gofrestrir gennym. Mae hyn yn gyson â'r hyn a ddisgwylir gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a reoleiddir.

64 Fodd bynnag, rydym yn barod i ystyried opsiynau eraill. Yn wir, un o ddibenion yr ymgynghoriad hwn yw casglu awgrymiadau o'r fath. Po fwyaf y caiff yr awgrymiadau hyn eu hegluro a'u costio, y mwyaf grymus y byddant. Ni wneir unrhyw benderfyniad terfynol hyd nes y bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried yn ofalus.

### Cadw'r ffi gofrestru bresennol sef £100 – yr effaith ar brosesau diogelu'r cyhoedd

65 Pe bai'r ffi gofrestru bresennol yn cael ei chynnal, sef £100, byddem yn wynebu bwlch ariannol o tua £13 miliwn y flwyddyn. Ni fyddai dewis gennym ond lleihau ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer yn unol â'r swm hwn ac felly ni fyddem yn gallu gweithredu fel rheoleiddiwr effeithiol, ar gyfer nyrsys a bydwragedd nac ychwaith ar gyfer y cyhoedd. Byddai hyn hefyd yn golygu y byddem yn methu â chyflawn ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd, ac y byddai'r cyhoedd yn colli hyder yn y proffesiynau.

66 Gan mai ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer sy'n cyfrannu fwyaf at ein costau, byddai'n rhaid i ni leihau adnoddau ar gyfer hyn ar adeg pan fo nifer yr atgyfeiriadau'n cynyddu. Mae ein swyddogaethau rheoleiddio eraill eisoes wedi bod yn destun cyfyngiadau ariannol er mwyn ariannu ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer, felly mae'n annhebygol iawn y gellid gwneud gostyngiadau pellach o £13 miliwn y flwyddyn. Byddai hyn yn arwain at adnoddau annigonol ar gyfer sgrinio ac ymchwilio i honiadau, a symud achosion ymlaen i'r cam gwrando. Byddai'n rhaid i ni leihau nifer yr ymchwiliadau a'r gwrandawiadau a gynhelir

[22] Ateb ysgrifenedig Tŷ'r Cyffredin, Dr. Daniel Poulter, Colofn 277W [188536] - http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmhansrd/cm140225/text/140225w0001.htm#14022590005659

gennym, gan arwain at ôl-groniad o achosion. Byddai hefyd yn golygu na fyddem yn cyflawni'r targedau ar gyfer prosesu achosion addasrwydd i ymarfer a bennwyd gan lywodraeth y DU. Byddai hefyd yn effeithio ar y gwasanaeth cwsmeriaid y gallem ei ddarparu i'r rhai sy'n rhan o achosion.

67 At hynny, byddai ffi o £100 yn golygu na fyddem yn gallu bodloni ein gofyniad i gynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn fel y nodir yn ein strategaeth ariannol ac fel y cytunwyd â llywodraeth y DU fel un o amodau ei grant £20 miliwn.

### Cynnig i gynyddu'r ffi gofrestru i £120

68 Cost wirioneddol bresennol y gwaith o gyflawni ein dyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd yw £120 fesul aelod cofrestredig y flwyddyn, a hynny ers cryn amser. Oni cheir yr arian hwnnw o ffioedd, byddai angen i ni ariannu'r diffyg o ffynhonnell arall fel y llywodraeth neu gronfeydd wrth gefn. Nid yw'r naill na'r llall o'r ffynonellau hyn yn ymarferol nac yn ddeniadol yn ein barn ni.

69 Yn ôl y gyfraith, rydym yn ariannu ein hunain drwy ffioedd cofrestru. Felly, yr opsiwn a ffefrir gennym yw cynyddu'r ffi gofrestru o £100 i £120.

70 Byddai ffi gofrestru o £120 yn ein galluogi i barhau i ddiogelu'r cyhoedd a chyflawni ein hymrwymiadau. Byddai'n ein galluogi i fod yn rheoleiddiwr sy'n cyflawni ei holl swyddogaethau a rhwymedigaethau statudol yn unol â'r safon ofynnol.

## Hawlio rhyddhad treth ar ffi gofrestru'r NMC

71 Gall nyrsys a bydwragedd hawlio rhyddhad treth ar eu ffi flynyddol drwy Gyllid a Thollau EM (CThEM). Gall unigolion hawlio rhyddhad treth ar danysgrifiadau neu ffioedd proffesiynol y mae'n rhaid iddynt eu talu er mwyn gweithio.

72 Yn 2013, gwnaethom gynnal arolwg a ddangosodd nad oedd dros 70 y cant o nyrsys a bydwragedd yn hawlio rhyddhad treth ar eu ffi flynyddol, ac nad oedd 50 y cant o nyrsys a bydwragedd yn ymwybodol bod hawl ganddynt i wneud hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan CThEM[23].

73 Sylweddolwn y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd cofrestru yn amhoblogaidd ymhlith nyrsys a bydwragedd. Felly, anogwn nyrsys a bydwragedd yn gryf i hawlio'r rhyddhad treth hwn. Os byddwn yn cynyddu'r ffi gofrestru i £120, byddai cais am ryddhad treth yn lleihau'r swm hwn i £96 a llai i'r rhai sy'n talu treth ar y gyfradd uwch.

## Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o brosesau rheoleiddio gofal iechyd statudol

74 Rydym yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol cymhleth sy'n gyfyngol ac yn anodd ei newid. Mae llawer o'n prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer wedi'u pennu'n uniongyrchol gan y ddeddfwriaeth hon. Mae newidiadau i'n prosesau yn gofyn am newid deddfwriaethol a chymeradwyaeth seneddol drwy broses gymhleth a chostus a all gymryd hyd at 18 mis. Fel rhan o ymateb y

[23] http://www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-subs.htm

llywodraeth i adroddiad Francis, cyfeiriodd y Prif Weinidog, ar 6 Chwefror 2013, at yr angen i gael gwared ar broses gwneud penderfyniadau hen ffasiwn ac anhyblyg yr NMC[24]. Cytunwn yn llwyr â'r datganiad hwn. Byddai fframwaith deddfwriaethol mwy hyblyg yn ein galluogi i fod yn fwy ymatebol, effeithlon ac effeithiol.

75 Mae'r llywodraeth wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y naw rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei Fil drafft[25] ar 2 Ebrill 2014, gan argymell y newid mwyaf ym maes rheoleiddio gofal iechyd er 150 o flynyddoedd. Cefnogwn y datblygiad hwn yn gryf oherwydd bydd yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen arnom i ddiogelu'r cyhoedd yn well, yn ogystal â darparu fframwaith a allai ein galluogi i leihau costau yn yr hirdymor. Er na fyddai hyn yn digwydd mewn pryd i effeithio ar y cynnydd yn y ffi gofrestru yr ymgynghorir yn ei gylch yn y ddogfen hon, byddem yn disgwyl y byddai fframwaith deddfwriaethol mwy hyblyg ac effeithlon yn cael effaith gadarnhaol ar ein sefyllfa ariannol mewn blynyddoedd i ddod. Felly, anogwn y llywodraeth i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn drwy'r broses ddeddfwriaethol.

---

[24] Araith y Prif Weinidog i'r Senedd ar 6 Chwefror 2013, colofn 282 - http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm130206/debtext/130206-0001.htm
[25] http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/Healthcare-professions.htm

# Y camau nesaf

76 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg o 8 Mai 2014 tan 31 Gorffennaf 2014. Ni chaiff unrhyw ymatebion a geir ar ôl y cyfnod hwn eu cynnwys wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

77 Caiff yr holl ymatebion eu coladu a'u dadansoddi gan gwmni ymchwil annibynnol. Bydd ein Cyngor yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn llywio ei benderfyniad ar y ffi gofrestru flynyddol.

## Eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn

78 Mae'n bwysig eich bod yn darllen y wybodaeth ganlynol cyn cwblhau'r arolwg.

### Cwestiynau

79 Mae pob cwestiwn yn ddewisol ac eithrio'r cwestiwn sy'n gofyn a ydych yn ymateb fel unigolyn neu fel sefydliad. Caiff ymatebion gan unigolion a sefydliadau eu dadansoddi ar wahân, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb.

80 Lle y gofynnir i chi roi sylwadau, oni nodir fel arall, ceir terfyn o 300 o eiriau.

### Cyflwyno eich ymateb

81 Gan fod eich ymateb yn ddienw, ni fydd yn bosibl i chi ei weld na'i ddiwygio ar ôl i chi ei gyflwyno, oni fyddwch wedi darparu eich cyfeiriad e-bost. Y rheswm am hyn yw y bydd angen eich manylion cyswllt er mwyn gwybod pa ymateb y gwnaethoch chi ei roi. Dylech nodi y bydd yr arolwg yn cau am 12:00 ar 31 Gorffennaf 2014 ac na fydd modd gwneud unrhyw ddiwygiadau wedi hynny. Os byddwch yn darparu cyfeiriad e-bost pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb ac yn dymuno ailedrych arno maes o law, yna bydd angen i chi gysylltu ag Alpha Research yn 9696nmc@alpharesearch.co.uk i ofyn iddynt ddychwelyd eich ymateb.

82 Dylech ymateb drwy'r ddolen ganlynol https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=139895975874

83 Os na allwch gyflwyno eich ymateb gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein, gallwch gysylltu â ni yn 9696nmc@alpharesearch.co.uk i ofyn am fformat amgen.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**1.** Yn seiliedig ar y wybodaeth uchod, a ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cynyddu'r ffi gofrestru i £120 o fis Mawrth 2015?

Cytuno (ewch i gwestiwn 3)
Anghytuno (ewch i gwestiwn 2)
Ddim yn siŵr
Nid oes gennyf farn

Rhowch reswm dros eich ateb.

**2.** A ydych yn cytuno y dylid cadw'r ffi bresennol, sef £100?

Cytuno
Anghytuno
Ddim yn siŵr
Nid oes gennyf farn

Rhowch reswm dros eich ateb.

**3.** A ydych yn ffafrio opsiwn arall (pa un a soniwyd amdano yn y ddogfen hon ai peidio)?

Os felly, esboniwch yr opsiwn hwnnw yma.

**4.** A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran grŵp neu sefydliad?

Fel unigolyn (ewch i gwestiwn 8)
Ar ran sefydliad (anwybyddwch gwestiynau 8-19)

## Sefydliad:

**5.** Ticiwch un blwch sy'n disgrifio orau y math o sefydliad rydych yn gweithio iddo.

Llywodraeth neu gorff cyhoeddus
Rheoleiddiwr
Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur
Cyflogwr nyrsys neu fydwragedd fel rhan o'r GIG
Cyflogwr nyrsys neu fydwragedd yn y sector annibynnol, neu asiantaeth ar gyfer nyrsys a bydwragedd
Darparwr addysg
Sefydliad defnyddwyr neu gleifion
Arall - nodwch:

**6.** Rhowch enw eich sefydliad.

A fyddech yn fodlon i'ch sylwadau gael eu priodoli i'ch sefydliad yn yr adroddiad?

Byddwn. Rwy'n fodlon i'm sylwadau gael eu priodoli i'm sefydliad

Na fyddwn. Cadwch fy ymatebion yn ddienw

**7.** Nodwch ble mae eich sefydliad yn gweithredu yn bennaf.

Ledled y DU
Lloegr
Gogledd Iwerddon
Yr Alban
Cymru
Arall - nodwch:

## Unigolyn:

**8.** A ydych yn:

Nyrs gofrestredig yn y DU
Bydwraig gofrestredig yn y DU
Nyrs a/neu fydwraig gofrestredig dramor
Cyflogwr neu reolwr
Addysgwr
Nyrs neu fydwraig dan hyfforddiant
Aelod o'r cyhoedd, defnyddiwr gwasanaeth neu glaf
Byddai'n well gennyf beidio ag ateb
Arall - nodwch:

**9.** Yn eich prif swydd, a ydych yn gweithio:

Yn llawn amser (mwy na 30 awr yr wythnos)
Yn rhan amser (hyd at 30 awr yr wythnos)

## Cwestiynau monitro amrywiaeth

Caiff ymatebion i'r cwestiynau hyn eu cadw'n ddienw. Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cwblhau'r cwestiynau hyn gan fod y dystiolaeth hon yn ategu ein gwaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

**10.** Sut y byddech yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

Seisnig
Cymreig
Albanaidd
Gwyddelig Gogledd Iwerddon
Prydeinig
Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Nodwch unrhyw hunaniaeth genedlaethol arall yn y blwch

**11.** Dewiswch un adran o A i D a rhowch dic yn y blwch sy'n disgrifio orau eich grŵp neu gefndir ethnig.

A. Gwyn

Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig
Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
Gwyddelig
Nodwch unrhyw gefndir gwyn arall yn y blwch

B. Grwpiau ethnig cymysg/lluosog

Gwyn a du Caribïaidd
Gwyn a du Affricanaidd
Gwyn ac Asiaidd
Nodwch unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall yn y blwch

C. Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

Indiaidd
Pacistanaidd
Bangladeshaidd
Tsieineaidd
Nodwch unrhyw gefndir Asiaidd arall yn y blwch

Ch. Du/Affricanaidd/Caribïaidd/cefndir du Prydeinig

Affricanaidd
Caribïaidd
Nodwch unrhyw gefndir du/Affricanaidd/Caribïaidd arall yn y blwch

D. Grŵp ethnig arall

Arabaidd
Nodwch unrhyw grŵp ethnig arall yn y blwch

**12.** A oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn eich barn chi?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith hirdymor sylweddol (o leiaf 12 mis) ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Oes
Nac oes
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

**13.** Nodwch eich cyfeiriadedd rhywiol.

Heterorywiol
Dyn hoyw
Merch hoyw/lesbiaid
Deurywiol
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

**14.** Nodwch eich rhyw.

Gwryw
Benyw
Trawsrywiol
Byddai'n well gennyf beidio ag ateb

**15.** A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'ch rhyw pan gawsoch eich geni?

Ydy
Nac ydy
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

**16.** Nodwch pa un sy'n cyfateb orau i'ch crefydd neu gredo.

Bwdhaeth
Cristnogaeth
Hindŵaeth
Iddewiaeth
Moslemiaeth
Siciaeth
Dim
Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Nodwch unrhyw grefydd arall yn y blwch

**17.** A ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil?

Ydw
Nac ydw
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

**18.** Nodwch eich oedran.

O dan 25 oed
25–34
35–44
45–54
55 neu drosodd (ewch i gwestiwn 19)
Byddai'n well gennyf beidio ag ateb

**19.** Os ydych yn 55 oed neu drosodd, a yw'r cynnydd yn y ffi yn debygol o gael effaith ar eich penderfyniad i barhau i weithio fel nyrs neu fydwraig, os o gwbl?

Ydy
Nac ydy
Ddim yn siŵr